# Canllawiau ar gyfer rheoli swigod (grwpiau o blant ac oedolion)

Early Years Wales
Blynyddoedd Cynnar Cymru

**Gweler hefyd:** https://gov.wales/protective-measures-childcare-settings-keep-childcare-safe

**Cyswllt cymdeithasol**

Mae cyfyngu ar gysylltiadau cymdeithasol yn rhan bwysig o leihau'r tebygrwydd o weld achosion mawr o'r feirws. Mae'n bwysig ein bod yn parhau i leihau'r cymysgu rhwng pobl a grwpiau o bobl. Mae cadw pobl mewn grwpiau bychain, cyson o oedolion a phlant, sy'n aros yr un fath gydol yr wythnos ac ar wahân i grwpiau eraill, yn helpu i wneud hynny ac mae'n osgoi creu cadwyni o drosglwyddiad. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru'n dweud y dylai plant mewn lleoliadau gofal plant dderbyn gofal mewn grwpiau cyson o ddim mwy nag wyth, tra'n cadw at gymarebau NMS.

**Dychwelyd**

Wrth ddychwelyd i ofal, dylai plant fynychu dim ond un lleoliad ble bo'n bosibl ac aros yn yr un grŵp bychan, cyson yn y lleoliad hwnnw, gymaint ag sy'n bosibl. Bydd hynny'n helpu i leihau'r tebygrwydd y gallai'r feirws symud rhwng grwpiau yn yr un lleoliad hwnnw neu symyd rhwng grwpiau mewn gwahanol leoliadau. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru'n dweud efallai y gallai meithrinfeydd sesiynol, gyda gwahanol garfannau o blant ar wahanol adegau o'r dydd, ystyried cael grwpiau llai o faint er mwyn cyfyngu ar faint o blant y daw'r staff mewn cysylltiad â nhw.

**Mwy nag un lleoliad**

Os yw plentyn yn mynychu mwy nag un lleoliad, er enghraifft ysgol a gofal plant cyson allan o'r ysgol, dylai'r plentyn aros yn yr un grŵp bychan yn y ddau leoliad pryd bynnag mae hynny'n bosibl. Nid yw cymysgu plant o wahanol grwpiau neu o wahanol ysgolion yn gyson gyda'r angen i sicrhau llai o gyswllt yn gyffredinol. Dylai rhieni a lleoliadau drafod y risgiau hyn ac ystyried sut i'w rheoli er mwyn lleihau lledaeniad y feirws. Mae hynny'n golygu y dylai rhieni, ysgolion a lleoliadau weithio gyda'i gilydd ac yn unol â'r canllaw a ddarperir.

**Asesu risg**

Wedi ystyried y pwyntiau uchod, dylech asesu'r risg yn y ffordd y mae eich lleoliad wedi'i gosod allan, y tu mewn a'r tu allan, i weld faint o swigod gydag 8 plentyn allwch chi eu cymryd yn ddiogel, ai un neu fwy nag un. Ystyriwch sut y gellid cadw'r swigod ar wahân efallai drwy ddefnyddio dodrefn neu sgrinau i rannu'r gofodau mwy neu efallai bod gennych ystafelloedd ar wahân neu fannau yn yr awyr agored y gellid eu defnyddio. Meddyliwch sut y bydd y plant a'r oedolion yn gallu symud o un lle i un arall heb ddod i gysylltiad â rhai mewn swigod eraill. Beth am ddefnyddio'r toiledau a'r adnoddau golchi dwylo? A ellir eu glanhau a'u di-heinitio'n ddigonol bob tro ar ôl i wanhanol swigod eu defnyddio?

**Faint o swigod?**

Unwaith y byddwch yn gwybod faint o swigod allwch chi eu cael yn ddiogel, dylai fod yn bosibl trefnu grwpiau cyfeillgarwch o blant wedi'u seilio hefyd ar y dyddiau neu sesiynau pan fydd y plant hynny'n bresennol. Dylid hefyd aseinio aelodau cyson o staff i bob swigen os yw hynny'n bosibl.

**Ystyriwch hefyd….**

Gofynnir hefyd i leoliadau ystyried sut y gallen nhw leihau’r peryglon o gysylltiadau ehangach a lleihau cadwyni trosglwyddo’r feirws. Er enghraifft, dylai lleoliadau gwarchod plant ystyried sut y gallen nhw weithio gyda rhieni i gytuno ar ffyrdd o reoli unrhyw deithiau angenrheidiol, gan gynnwys codi a gollwng mewn ysgolion, rhag bod y darparydd yn teithio’n ddianghenrhaid gyda grwpiau o blant.

02920 451242 info@earlyyears.wales earlyyears.wales / blynyddoeddcynnar.cymru

Early Years Wales 2018 / Blynyddoedd Cynnar Cymru 2018. Registered in Wales / Gofrestredi yn Cymru.
Registered Office Unit 1, Coopers Yard, Curran Road, Cardiff CF10 5NB / Swyddfa Gofrestredig: Uned 1, Iard y Cowper, Ffordd Curran, Caerdydd CF10 5NB
Company limited by guarantee / Cwmni cyfyngedig trwy warant 3164233. Charity / Elusen 1056381

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.
Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi